NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

# PECYN CAIS
# TRWYDDED CYNHWYSYDD

# DEDDF PRIFFYRDD 1980

**Manylion cyswllt**

**Ffôn: 01633 656 656**

**E-bost: street.works@newport.gov.uk**

## ***SYLWER AR Y CANLYNOL:***

**GALL METHU Â CHYDYMFFURFIO AG ADRANNAU PERTHNASOL DEDDF PRIFFYRDD 1980 ARWAIN AT ERLYNIAD A GALL Y PERSON DAN SYLW FOD YN AGORED, AR GOLLFARN DDIANNOD, I DDIRWY HYD AT £5000 AR GYFER POB CYHUDDIAD.**

**BYDD METHU Â DARPARU'R HOLL WYBODAETH OFYNNOL YN ARWAIN AT DDYCHWELYD Y CAIS.**

**NI FYDD Y CYNGOR YN CADW UNRHYW WYBODAETH AC NI FYDD Y CAIS YN CAEL EI BROSESU.**

**RHAID PEIDIO Â GOSOD UNRHYW GYNHWYSYDD AR Y BRIFFORDD CYN I GANIATÂD GAEL EI ROI.**

# <u>CYNNWYS</u>


**Rhan 1** Cyflwyniad

**Rhan 2** Gweithdrefn i Ymgeiswyr

**Rhan 3** Amodau Arbennig i Osod, Cadw a Chynnal

**Rhan 4** Taliadau

**Rhan 5** Ffurflen Gais

## Rhan 1 - CYFLWYNIAD

I osod Cynhwysydd ar y briffordd rhaid cael caniatâd am bob lleoliad gan yr Awdurdod Priffyrdd. Ni roddir caniatâd oni bai eich bod yn ymrwymo i gydymffurfio â'r amodau a restrir isod yn ogystal ag unrhyw amodau eraill a allai fod yn angenrheidiol ym marn yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd amodau ychwanegol o'r fath yn y Drwydded ei hun. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r amodau hyn, gallwch fod yn agored i gael eich erlyn dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

Nawr dylech ddarllen yr amodau a restrir isod ac ymgyfarwyddo â nhw. Bydd yr amodau hyn ar waith nes i newidiadau deddfwriaeth neu bolisi neu'r ddau ofyn am eu hadolygu.

## Rhan 2 – GWEITHDREFN I YMGEISWYR

Rhaid i'r Trwyddedai gwblhau'r ffurflen gais atodedig (CONTAINER_FORM 1) a'i hanfon i Gwasanaethau'r Ddinas, Tîm Gwaith Stryd, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, De Cymru, NP20 4UR neu ei hanfon mewn e-bost i street.works@newport.gov.uk

Ar ôl rhoi caniatâd, caiff y cais ei gadarnhau drwy'r post neu dros e-bost gyda chyfeirnod ar frig y ffurflen ganiatâd (CONTAINER_PERM 2).

Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cysylltu â'r Trwyddedai dros y ffôn i roi gwybod a/neu i drefnu lleoliad amgen i'r sgip gael ei osod ar y briffordd.

## Rhan 3 – AMODAU ARBENNIG I OSOD, CADW A CHYNNAL

DARPARIAETHAU STATUDOL:

Dylai Deiliad y Caniatâd sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau statudol perthnasol. Y darpariaethau statudol perthnasol pwysicaf yw:

a) Deddf Priffyrdd 1980: Adrannau 139, 140 a 171

(i) Adran 139(4): Os bydd perchennog yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r amodau y rhoddwyd caniatâd yn amodol arnynt bydd, fel y nodir yn y Ddeddf, yn euog o drosedd a gallai fod yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy.

(ii) Mae Adran 139(10) yn nodi na fydd unrhyw beth yn yr Adran yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n awdurdodi creu niwsans neu berygl i ddefnyddwyr y briffordd neu'n rhywbeth sy'n gosod ar Awdurdod Priffyrdd y rhoddwyd caniatâd ganddo dan yr Adran unrhyw atebolrwydd am unrhyw anaf, difrod neu golled sy'n deillio o bresenoldeb y sgip y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef ar briffordd.

(iii) Mae Adran 140 yn grymuso'r Awdurdod Priffyrdd neu Swyddog yr Heddlu i ofyn i symud neu ail-leoli sgip adeiladwr/cynhwysydd sydd ar y briffordd, er y'i gosodwyd yn unol â chaniatâd yr Awdurdod Priffyrdd, i adfer gan drwyddedai'r cynhwysydd gost ei symud neu ei ail-osod, ac i symud cynhwysydd nas cesglir gan ei berchennog. Gall methu â chydymffurfio â chais i symud neu ail-leoli sgip dan yr Adran arwain at ddirwy.

(iv) Adran 171 (1): Gall person, â chaniatâd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer stryd sy'n briffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan y pwrs cyhoeddus, adael dros dro ddeunydd adeiladu, sbwriel neu bethau eraill yn y stryd neu gloddio ynddi dros dro

(b) Deddf Rheoleiddio Traffig 1984: Adrannau 64 a 65
(c) Rheoliadau Arwyddion Traffig (Rhwystrau Dros Dro) 1985 [A1 463]
(ch) Rheoliadau Sgipiau Adeiladwyr (Marciau) 1984 [1984/1988]
(d) Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989
(dd) Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cofrestru Cludwyr ac Atafael Cerbydau) 1991

AMODAU

1. Ni chaiff unrhyw gynhwysydd, rhwystr nac ymwthiad (sef 'Cynhwysydd' o hyn allan) gael ei godi, ei osod neu ei gadw mewn, dros nac ar unrhyw briffordd sydd ar y Briffordd Gyhoeddus fabwysiedig heb drwydded ddilys gan y Cyngor.

2. Yn unol ag adran 171 Deddf Priffyrdd 1980, bydd digon o oleuadau ar y cynhwysydd bob amser rhwng y wawr a'r machlud a bydd hefyd lampau a chonau arno ac o'i gwmpas yn unol â 'chod ymarfer' y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd.

3. Bydd pob person y rhoddir trwydded iddo'n llenwi, yn gwastadu ac yn cywasgu unrhyw droedffordd/lôn gerbydau/arwyneb tirweddu meddwl i'w gyflwr blaenorol ac mae'r Cyngor yn llaesu dwylo o'i gyfrifoldeb dan Ddeddf Priffyrdd (1980) os bydd unrhyw ddamwain yn digwydd o ganlyniad i gyflawni'r gwaith, neu drwy fethiant yr arwynebau, neu drwy godi neu symud y cynhwysydd ac ati.

4. Caiff unrhyw ran o'r briffordd a godir neu unrhyw adeiledd arall y mae'r Cyngor yn berchen arno a amherir neu a ddifrodir ei amnewid a gwneir yn iawn am hyn i'r Cyngor gan y trwyddedai.

5. Rhaid i'r drwydded gael ei harddangos, a'i diogelu'n addas, mewn lle amlwg ar y cynhwysydd.

6. Mae unrhyw un sy'n defnyddio unrhyw gynhwysydd at ddibenion hysbysebu nas nodir yn narpariaethau Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (rheoli hysbysebion) 1984, neu unrhyw reoliadau eraill a allai fod mewn grym, yn agored am bob trosedd i gosb hyd at Bedwar Can Punt ac i gosb bellach hyd at Ugain Punt y dydd am bob dydd y cyflawnir trosedd o'r fath ar ôl euogfarn, neu i unrhyw gosb arall debyg y gallai'r Rheoliadau ei gosod.

7. Bydd unrhyw un sy'n troseddu'n erbyn telerau'r drwydded hon neu'n erbyn darpariaethau adran 171 Deddf Priffyrdd 1980 yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy hyd at Bedwar Can Punt.

8. Bydd y trwyddedai'n cadw pob gorchudd Cyfleustodau Cyhoeddus yn glir bob amser ac yn cydymffurfio â gofynion rhesymol unrhyw ymgymerwyr statudol perthnasol o ran diogelu unrhyw offer y mae'r ymgymerwyr hynny'n berchen arnynt neu a ddefnyddir neu a gynhelir ganddynt neu o ran sicrhau offer o'r fath.

9. Mae angen trwydded i bob cynhwysydd.

10. Rhaid i bob draen storm gael ei gadw'n glir bob amser a rhaid cynnal sianel draenio bob amser. Caiff y Briffordd Gyhoeddus o amgylch safle'r cynhwysydd ei chadw'n lân ac yn daclus bob amser.

11. Os yw cynhwysydd i gael ei osod mewn Parth Rheoli Parcio (mannau parcio â thrwydded i breswylwyr neu fusnesau / mesuryddion / llinellau melyn ac ati) rhaid cael caniatâd ar wahân gan y gwasanaethau parcio a thalu unrhyw ffioedd atal parcio iddynt.

## Rhan 4 – TALIADAU

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Trafnidiaeth) 1998, mae taliadau'r Cyngor wedi'u pennu fel a ganlyn:

Mae'r taliad i benderfyniad ar gais Trwydded Cynhwysydd i leoli sgip ar y briffordd ar hyn o bryd yn **£302.94 - yn cynnwys ffi archwilio o £55** sydd, os y'i dyfernir, yn ddilys am 28 diwrnod. Os oes angen estyniad i'r caniatâd, dylai ymgeiswyr nodi bod rhaid i gais adnewyddu ddod i law o leiaf 1 diwrnod gwaith llawn cyn i'r drwydded wreiddiol ddod i ben.

Nid oes modd ad-dalu'r ffi ar ôl cymeradwyo'r cais.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais / This form is available in English, other formats available on request.

CONTAINER_FORM

# CAIS TRWYDDED CYNHWYSYDD

**Cais am ganiatâd i osod, cadw a chynnal cynhwysydd ar y briffordd gyhoeddus.**

ADRAN 1 – Manylion yr Ymgeisydd

| **Enw a Chyfeiriad yr Ymgeisydd** | **Enw a Chyfeiriad y Cyswllt** |
|---|---|
| **Rhif Ffôn:** **Rhif Ffacs:** | **Rhif Ffôn:** **Rhif Ffacs:** |

ADRAN 2 – Lleoliad (Cyfeiriad a/neu Gynllun)

ADRAN 3 – Nodwch pam na ellir gosod y cynhwysydd ar dir y tu allan i'r briffordd

ADRAN 4 – Hyd (Uchafswm o 28 Diwrnod)

**O:** **Tan:**

ADRAN 5 – Manylion Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Isafswm o £10 miliwn)

**Yswiriwr:**

**Rhif y Polisi:**

**O:** **Tan:**

ADRAN 6 - Datganiad

Rwyf i/Rydyn ni'n cytuno i gadw at yr holl amodau a nodir yn y Nodiadau Canllaw a roddwyd i mi/ni gan Gyngor Dinas Casnewydd:

**Enw (priflythrennau):** **Ar ran (cwmni):**

**Llofnod:** **Dyddiad:**